Welsh NHS Confederation
Conffederasiwn GIG Cymru

# Llais Arweinyddiaeth y GIG Yng Nghymru

ADRODDIAD EFFAITH 2021/22

# Rhagair

Ers dechrau 2020, mae'r byd wedi cael ei effeithio gan bandemig Covid-19. O dan bwysau eithafol,mae'r GIG a'i bartneriaid wedi ymateb yn gyflym, gyda phenderfynoldeb a chadernid i ddiogelu a gofalu am y rheiny sydd mewn angen.

Mae wedi bod yn gyfnod eithriadol a didostur i bawb, yn arbennig i'r bobl yn y system iechyd a gofal. Mae'r GIG wedi gwneud popeth o fewn ei allu i reoli'r galw eithriadol. Mae wedi ymdrechu i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig yn ogystal â mynd i'r afael â rhestrau aros am ddiagnosteg a thriniaeth, sydd yn tyfu o hyd, tra'n cyflwyno rhaglen frechu sydd wedi torri pob record a chynnal gwasanaethau o dan fesurau atal a rheoli heintio llym.

Rydym wedi parhau i chwarae ein rhan ni trwy gynrychioli, cysylltu a chefnogi arweinwyr y GIG yng Nghymru ar bob cyfle. Er enghraifft, fe wnaethom roi cymorth uniongyrchol cadarn i grwpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr gweithredol y GIG, cynrychiolwyd ein haelodau cyn ac ar ôl etholiad y Senedd yn 2021 a llwyddwyd i ddod ag aelodau ynghyd yn ein cyfres o ddarlithoedd Lles Cymru, ein cynhadledd rithiol gyntaf.

Mae eleni wedi bod yn enghraifft dda o'r cylch dylanwad sydd yn rhan greiddiol o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys rheoli Rhaglen Genedlaethol Arweinyddiaeth y GIG, lle'r ydym yn hwyluso sgyrsiau strategol rhwng arweinwyr. Rydym wedyn yn defnyddio'r wybodaeth yma i gefnogi ein gwaith cyfryngau a pholisi ac i arwain ymgysylltiad rhanddeiliaid, gan ddylanwadu ar y naratif er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ein haelodau yn cael eu cynrychioli.

Mae twf ein Cynghrair Iechyd a Lles wedi bod yn faes canolog i Gonffederasiwn GIG Cymru – gan gynyddu gwaith partneriaeth gyda sefydliadau allweddol eraill ar draws y system iechyd a gofal. Rydym wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r heriau a'r pwysau ar y system trwy ein galwadau unedig a'n sefyllfaoedd polisi.

Fel tîm bach, rwy'n eithriadol o falch o bopeth yr ydym wedi ei gyflawni ac yn gobeithio bydd yr adroddiad hwn yn rhoi blas o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i gefnogi arweinwyr y GIG yng Nghymru ac, yn bwysicach, ei effaith.

Byddwn yn parhau i gynrychioli, cysylltu a chefnogi arweinwyr y GIG yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod wrth iddynt reoli effeithiau parhaus pandemig Covid-19, adferiad systemau, heriau mewn gofal cymdeithasol ac effeithiau'r argyfwng costau byw.




**Darren Hughes**
**Cyfarwyddwr**
**Conffederasiwn GIG Cymru**

# Pwy ydym ni

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r corff aelodaeth cenedlaethol sydd yn cynrychioli arweinwyr y sefydliadau sydd yn ffurfio'r GIG yng Nghymru: y saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig. Rydym yn rhan o Gonffederasiwn y GIG ac yn cynnal Cyflogwyr GIG Cymru.

# Ein haelodau




## Byrddau iechyd lleol

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
6. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## Ymddiriedolaethau'r GIG

+ Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
+ Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
+ Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Awdurdodau iechyd arbennig

+ Iechyd a Gofal Digidol Cymru
+ Addysg a Gwella Iechyd Cymru

# Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn cynorthwyo ein haelodau trwy weithredu fel grym dros newid cadarnhaol trwy gynrychiolaeth gref, gan gysylltu Arweinwyr systemau, a thrwy ein polisi rhagweithiol, ein gwaith dylanwadu, cyfathrebu ac ymgysylltu.



## Cynrychioli

Rydym yn cynrychioli sefydliadau a sectorau er mwyn sicrhau bod sefydliadau a systemau lleol yn gweithio er budd defnyddwyr y gwasanaeth, dinasyddion a staff.



## Cysylltu

Rydym yn cysylltu'r system gofal iechyd gyfan i hybu gwaith system a datblygu atebion i heriau a rennir.



## Cymorth

Rydym yn cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu a gwella eu sgiliau arweinyddiaeth, gan roi'r offer, y syniadau a'r mewnwelediad i arweinwyr a'u rhoi mewn cysylltiad â chymuned o arweinwyr.

# Sut rydym yn gwneud hyn

Rydym yn gweithio gyda'n haelodau i fod yn rym i ysgogi newid cadarnhaol trwy...

- Hyrwyddo gwaith partneriaeth
- Datblygu perthnasoedd cynhyrchiol
- Ymgysylltu gwleidyddol effeithiol
- Dylanwadu ar naratif y cyfryngau
- Cyfathrebu materion cymhleth
- Rheoli Rhaglen Genedlaethol Arweinyddiaeth y GIG
- Trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd
- Cynrychioli safbwyntiau aelodau
- Rhannu arfer da
- Cysylltu arweinwyr iechyd a gofal
- Llywio a ffurfio trafodaeth
- Rhoi mewnwelediad a dadansoddiad
- Hyrwyddo arwain agweddau
- Cefnogi cyfarwyddwyr gweithredol
- Gwneud galwadau i'r llywodraeth
- Creu briffiau llawn gwybodaeth
- Ymateb i ymgynghoriadau, archwiliadau ac adolygiadau
- Rhoi llais ar lefel y DU

# Cipolwg ar 2021/22


## Cynrychioli




Cyhoeddwyd **70+** o ddatganiadau i'r wasg a darnau sylw a **30+** o gyfweliadau radio a theledu, gan arwain at **160+** sylw yn y cyfryngau, yn cynrychioli llais arweinwyr ar draws y system



Ymatebwyd i **13** o ymchwiliadau Pwyllgorau'r Senedd ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, gan roi tystiolaeth yn seiliedig ar fewnwelediad aelodau




Cyhoeddwyd **20** briff ac adroddiad, yn arddangos arfer da ac arloesi ar draws y GIG yng Nghymru ac yn galw ar newidiadau y mae ein haelodau eisiau eu gweld, gan arwain at **50+** sylw yn y Senedd

## Cysylltu



Cynhaliwyd **11** digwyddiad arwain agweddau ar-lein, gan ddenu **1,200+** o fynychwyr ar draws y sector iechyd a gofal a thu hwnt



Mynychodd **500+** o bobl ein Cyfres o Ddarlithoedd rhithiol Lles Cymru, gan rannu gwybodaeth, hyrwyddo arwain agweddau ac annog meddwl yn fwy arloesol



Cyrhaeddwyd **5,400+** o ddilynwyr Twitter i rannu negeseuon allweddol a gwybodaeth



Cynhaliwyd **20+** o gyfarfodydd y Cynghrair Iechyd a Lles, gan ddod â **70+** o sefydliadau iechyd a gofal ynghyd i hwyluso gweithio ar y cyd a chydweithredu

## Cymorth



Rhoddwyd cymorth corfforaethol a gweithredol i **70+** o gadeiryddion, is-gadeiryddion a chyfarfodydd grŵp prif weithredwyr



Rhoddwyd cymorth rheoli rhaglenni a chymorth gweinyddol i **120+** o gyfarfodydd grŵpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr gweithredol, cydlynwyd **200+** o gyflwynwyr gwadd a chafodd cyflawniad **1,300+** o weithredoedd grwpiau cymheiriaid eu monitro



Cynorthwywyd **15** o gynrychiolwyr y GIG i roi tystiolaeth lafar i ymchwiliadau Pwyllgorau'r Senedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau arweinwyr y GIG yn cael eu clywed



Cynhyrchwyd **140+** o friffiau a diweddariadau aelodau, gan brosesu'r newyddion diweddaraf, safbwyntiau a datblygiadau er mwyn diweddaru aelodau ar faterion allweddol

# Conffederasiwn GIG Cymru: Cyflawni ar gyfer arweinwyr y GIG

## Cynrychioli safbwyntiau arweinwyr y GIG yn y cyfryngau

Rydym wedi datblygu ein henw da fel llais arweinwyr y GIG y gellir mynd atynt, gan wella ein perthynas â chyfryngau Cymru a'r DU.

Rydym yn dylanwadu'n barhaus ar y naratif cenedlaethol, yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth o'r heriau y mae'r system iechyd a gofal yn eu hwynebu yng Nghymru.

Rydym wedi darparu llais cydlynus, rhagweithiol ac adweithiol ar gyfer y GIG yng Nghymru i'r cyfryngau, y cyhoedd, gwleidyddion a rhanddeiliaid ehangach trwy gyhoeddi dros 50 o ddatganiadau ac ymatebion i'r wasg a 30 o gyfweliadau radio a theledu. Ynghyd â hyn, cyhoeddwyd 11 o flogiau a darnau sylw a chawsant eu nodi dros 160 o weithiau yn y cyfryngau, gan godi proffil materion allweddol sy'n effeithio ar y GIG yng Nghymru yn sylweddol.

Fe wnaethom barhau i gynrychioli safbwyntiau arweinwyr y GIG ar amrywiaeth o feysydd gwahanol, yn cynnwys perfformiad y GIG, yr ymateb i Covid, pwysau ar systemau, gweithio ar draws sectorau ac adferiad y GIG. Bob mis, rydym yn esbonio'r heriau y tu ôl i ystadegau gweithgaredd a pherfformiad y GIG, gan amlygu meysydd ar gyfer gwella a chyfleu'r heriau presennol. Fe wnaethom helpu i lunio'r naratif hwn yn y cyfryngau trwy ein datganiadau a chyfweliadau teledu a radio, yn cynnwys ar BBC Wales, ITV Wales, Global Radio, WalesOnline a Newsnight BBC Two.

**50**

datganiad i'r wasg

**160+**

crybwylliad gan y cyfryngau

> "Mae Conffederasiwn y GIG wedi ymrwymo i gyfathrebu â phartneriaid ac aelodau i gael effaith gadarnhaol ar gyflawni Cymru Iachach. Trwy gydol y pandemig maent wedi sefydlu'r enw rhagorol o fod yn sefydliad hawdd mynd atynt er mwyn deall y GIG yng Nghymru."
>
> **Cadeirydd y GIG**

# Dylanwadu gwleidyddol a rhoi mewnwelediad aelodau

Cyn etholiad y Senedd 2021, fe wnaethom godi ymwybyddiaeth o'r prif flaenoriaethau i arweinwyr y GIG yn y cyfryngau a chyda gwleidyddion, gan ddatblygu briff, darnau sylw a flogiau i amlinellu ein galwadau.

Trefnwyd Hustings Iechyd a Gofal mewn partneriaeth â Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, lle'r oedd 200 o gydweithwyr o'r system iechyd a gofal yn gallu ymgysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol.

Yn dilyn ymgysylltu helaeth ag arweinwyr y GIG, fe wnaethom ymateb i 13 o archwiliadau Pwyllgorau'r Senedd ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a chefnogi 15 o gynrychiolwyr y GIG i roi tystiolaeth lafar i Bwyllgorau'r Senedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau arweinwyr y GIG yn cael eu clywed a'u deall yn well.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cawsom ein crybwyll dros 50 o weithiau yn y Senedd. Yn dilyn ein hymateb i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, soniwyd amdanom 25 o weithiau yn ystod y broses graffu a chafodd ein holl alwadau yn ymwneud â setliad amlflwyddyn, gofal cymdeithasol, cyfalaf, y gweithlu, ataliaeth ac anghydraddoldebau iechyd i gyd eu cynnwys mewn adroddiadau pwyllgor.


Fe wnaethom sicrhau bod arweinwyr y GIG wedi eu diweddaru am ddatblygiadau polisi a gwleidyddol trwy rannu dros 140 o friffiau er mwyn galluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Rhoddwyd diweddariadau a rhannwyd y newyddion diweddaraf trwy ein cylchlythyrau wythnosol, BayWatch a'r Adroddiad Wythnosol, yn ogystal â'n briffiau misol a'r cylchlythyr 'Cipolwg'.

**140**

briff wasg wedi'u cynhyrchu

**50+**

crybwyll yn y Senedd



"Mae'r briffiau hyn yn adnoddau gwerthfawr iawn - yn llawn cynnwys ac yn rhoi mewnwelediad rhagorol i weithgareddau sefydliadau'r GIG ar hyd a lled Cymru. Maent yn ddefnyddiol iawn yn paratoi cyfraniadau i sesiynau llawn a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Aelodau'r Senedd."

**Uwch-gynghorydd i Aelod o'r Senedd**

# Arddangos arfer da ar draws y GIG yng Nghymru

Cyhoeddwyd 20 briff ac adroddiad yn arddangos arfer da ac arloesi ar draws y GIG yng Nghymru i helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.

Yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r Is-grŵp Polisi, cyhoeddwyd Health, wealth and wellbeing: The NHS' role in economic and social recovery. Mae'r briff a'i argymhellion wedi dylanwadu ar drafodaethau cenedlaethol a lleol yn ymwneud â'r economi sylfaenol, yn cynnwys y rhaglen Economi Sylfaenol ym Maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn ddiweddar. Fe wnaethom ysgrifennu ar gyfer melin drafod annibynnol flaenllaw Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig, gan gyrraedd cynulleidfa ehangach o wneuthurwyr polisïau ac arweinwyr agweddau.

Yn unol â blaenoriaethau ein Is-grŵp Polisi, cyhoeddwyd Reshaping the relationship between the public and the NHS, gan alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Bargen ar gyfer Iechyd a Lles. Mewn ymateb i COP26, cyhoeddwyd briff yn dangos astudiaethau achos gan sefydliadau'r GIG ar draws Cymru, yn nodi sut maent yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

> "Mae gwaith yr Is-grŵp Polisi yn gyfle unigryw i uwch arweinwyr y GIG...ystyried y blaenoriaethau polisi strategol ehangach ar gyfer GIG Cymru a'r prif negeseuon yr ydym yn dymuno eu cyfathrebu fel gwasanaeth i Lywodraeth Cymru a gwleidyddion yn ehangach."
>
> **Cadeirydd y GIG**

# Dylanwadu a rhannu gwybodaeth ar draws Conffederasiwn y GIG


Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda Chonffederasiwn y GIG er mwyn sicrhau bod llais arweinwyr y GIG yng Nghymru'n cael ei gynrychioli ar lefel y DU.

Yn dilyn ymgysylltu ag arweinwyr y GIG yng Nghymru, fe wnaethom roi mewnbwn ar ymateb Conffederasiwn y GIG i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU a chynorthwyo cynrychiolwyr Cymru i gymryd rhan yn nigwyddiadau Conffederasiwn y GIG, yn cynnwys Cynhadledd Confed21 a digwyddiadau NHS Reset. Mae hyn wedi caniatáu rhannu gwybodaeth ar y ddwy ochr gydag awdurdodaethau eraill ar draws y DU.

Fel rhan o ymgyrch #NotTooMuchToMask Conffederasiwn y GIG, daethom â 28 o sefydliadau iechyd a gofal blaenllaw Cymru ynghyd i gymeradwyo'r ymgyrch. Trwy'r partneriaethau yr ydym wedi eu datblygu yng Nghymru, mae nifer o sefydliadau wedi ysgrifennu blogiau i NHS Voices, yn cynnwys darn gan Community Leisure UK, yn amlygu bod eu haelodau yn cefnogi'r GIG yng Nghymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar werth gwirfoddoli trwy gydol y pandemig.

**28**

sefydliad iechyd a gofal arweiniol Cymraeg wedi cymeradwyo'r ymgyrch



"Trwy eu hymgysylltu parhaus â'u cyfoedion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae tîm Conffederasiwn GIG Cymru yn sicrhau bod arweinwyr y GIG yng Nghymru'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig ar lefel y DU, a bod safbwynt Cymru'n cael ei rannu ar draws ffiniau."

**Cadeirydd y GIG**

# Cynorthwyo arweinwyr y GIG trwy ein Rhaglen Genedlaethol Arweinyddiaeth y GIG

Mae ein cymorth ar gyfer 10 grŵp cymheiriaid cyfarwyddwyr dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn ddiwyro.

Trwy ein Rhaglen Genedlaethol Arweinyddiaeth y GIG, rydym wedi rhoi cymorth rheoli rhaglenni a gweinyddol i fwy na 120 o gyfarfodydd grwpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr, wedi cydlynu dros 200 o gyflwynwyr gwadd ac wedi monitro cyflwyno dros 1,300 o weithredoedd grwpiau cymheiriaid.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi rhoi cymorth ysgrifenyddol a chymorth datblygu polisi uwch i dros 70 o gadeiryddion, is-gadeiryddion a chyfarfodydd grwpiau prif weithredwyr. Rydym wedi galluogi trafodaethau ar draws sefydliadau trwy ddatblygu agendâu a chynlluniau gwaith, trefnu briffiau strategol a chyflwyniadau ar destunau blaenoriaeth, cymryd cofnodion a rhoi gweithredoedd ar waith.

Rydym wedi bod yn hyblyg ac yn ystwyth, gan alluogi cyflawniad yr ystod eang o wasanaethau sy'n ofynnol er mwyn i grwpiau cymheiriaid weithredu'n dda, trafod materion a mentrau, datblygu cydweithredu ac arddangos arweinyddiaeth ar y cyd. Rydym wedi cysylltu gwaith grwpiau cymheiriaid ar feysydd yn cynnwys adferiad gwasanaethau pandemig, brechu, gofal wedi ei gynllunio a gofal brys, gofal sylfaenol a chymunedol, materion ansawdd a diogelwch a'r gweithlu.

Fe wnaethom hwyluso cydweithredu rhwng cadeiryddion grwpiau cymheiriaid yn ogystal â chadeirydd y Tîm Rheolaeth Prif Weithredwyr. Fe wnaethom gysylltu â grwpiau cymheiriaid, er enghraifft trwy weithdy ar fynd i'r afael â phwysau systemau gyda'r Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Nyrsio, Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan a Gwelliant Cymru, gan arwain at gyflawni ymarferol yn y rheng flaen. Mae rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y grwpiau cymheiriaid wedi cynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau systemau cyfan a datblygiad mentrau ar y cyd.

**200**

o gyflwynwyr gwadd wedi'u cydlynu mewn 120 o gyfarfodydd grŵpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr

**1,300**

o weithredoedd grŵpiau cymheiriaid wedi'u monitro

> "Mae'r cymorth yr wyf yn ei gael fel cadeirydd y grŵp cymheiriaid yn hanfodol i lwyddiant fy rôl ac i weithrediad effeithiol y grŵp.... rwy'n hynod ddiolchgar am y gwaith y maent yn ei wneud. Nhw yw ein harwyr tawel!"
>
> **Cadeirydd y grŵp cymheiriaid gweithredol**

# Datblygu partneriaethau cryf trwy ein Cynghrair Iechyd a Lles

Rydym yn parhau i gadeirio cyfarfodydd a gweithio gyda rhanddeiliaid trwy ein Cynghrair Iechyd a Lles, sydd yn cynnwys dros 70 o sefydliadau iechyd a gofal.

Cyfarfu'r Cynghrair dros 20 o weithiau trwy gydol y flwyddyn, gan alluogi rhanddeiliaid i glywed gan amrywiaeth o siaradwyr ar faterion allweddol, datblygu sefyllfaoedd polisi a rennir ac ymateb i ymchwiliadau Pwyllgorau'r Senedd. Mae'r sefyllfaoedd polisi a rennir a'r ymatebion ar y cyd hyn yn arwain at effaith fwy ar y cyd yn y Senedd.

Datblygodd y Cynghrair y papur Gwneud y gwahaniaeth: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, a gymeradwywyd gan 36 o sefydliadau, yn galw ar anghydraddoldebau iechyd fod yn flaenoriaeth trawslywodraethol. Cafodd y papur sylw yn y cyfryngau, derbyniodd gefnogaeth gan y gwrthbleidiau ac arweiniodd at drafodaeth yn y Senedd. Yn ogystal, arweiniodd at gyfarfodydd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a dylanwadu ar flaenraglen waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chweched Strategaeth y Senedd.

**36**

o sefydliadau wedi galw am anghydraddoldebau iechyd i fod yn flaenoriaeth draws-lywodraethol

"Mae bod yn rhan o'r Cynghrair Iechyd a Lles wedi dangos sut gall cydgynhyrchu wneud gwahaniaeth sylweddol i gyflwyno iechyd a gofal. Mae pawb sydd yn gysylltiedig â'r Cynghrair yn ddiolchgar am arweinyddiaeth Conffederasiwn GIG Cymru a'r cyfleoedd a ddarparwyd trwy fod yn rhan o'r fforwm arloesol hwn."

**Aelod o Gynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru**



# Codi ymwybyddiaeth o bwysau systemau a chynorthwyo integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol

Ers dechrau'r pandemig, mae ymgysylltu â phartneriaid gofal cymdeithasol a chyflwyno negeseuon parhaus i wleidyddion, y cyfryngau a rhanddeiliaid yn ymwneud â'r heriau y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu a'r effaith ar y GIG, wedi bod yn brif ffocws.

Rydym wedi cynrychioli arweinwyr y GIG mewn cyfarfodydd o Bwyllgor y Gweinidogion ar Weithredu ar Ofal ac yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ystod o randdeiliaid ar faterion yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng iechyg a gofal. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd misol, digwyddiadau a chynadleddau gydag arweinwyr awdurdodau lleol, gweision sifil sydd yn arwain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) Cymru.

Maes ffocws hanfodol yn ein cyfathrebiadau yw effaith yr heriau y mae sector gofal cymdeithasol y GIG yn eu hwynebu – gan helpu'r cyfryngau, gwleidyddion a'r cyhoedd i ddeall y ffactorau cymhleth sy'n ymwneud â'r pwysau ar y system. Fe wnaethom ysgrifennu erthygl yn canolbwyntio ar y testun hwn ar gyfer y Western Mail, gafodd ei dyfynnu fel tystiolaeth mewn adroddiad gan Goleg Brenhinol y Meddygon, yn galw ar fuddsoddiad mewn gwasanaethau 'ysbyty gartref'.

Fe wnaethom gynorthwyo cynrychiolwyr y GIG i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ryddhau o'r ysbyty a'i effaith ar lif cleifion trwy ysbytai. Cyn yr ymchwiliad, casglwyd gwybodaeth gan arweinwyr y GIG i ddatblygu briff ar gyfer ASau, Actions taken to mitigate pressures in the health and social care system, a grybwyllwyd sawl gwaith yn ystod trafodaethau'r Senedd.

> "Mae'r briffiau yn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith cadarnhaol ac arloesol sydd yn cael ei wneud ar draws y gwasanaeth, ynghyd â'r argymhellion i lywio a dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth llywodraeth ar feysydd blaenoriaeth allweddol, sydd yn gyfraniadau hanfodol gan Gonffederasiwn GIG Cymru."
>
> **Cadeirydd y GIG**

# Rhannu gwybodaeth ac annog meddwl yn arloesol trwy ddigwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd 11 digwyddiad arwain agweddau ar gyfer ein haelodau a rhanddeiliaid ehangach, rhai ohonynt mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, gan ddenu dros 1,200 o fynychwyr i gyd.

Roedd y testunau'n cynnwys treialon clinigol a datblygiad therapïau a brechlynnau newydd, arloesedd a thrawsnewid Covid, Covid hir a'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru, gwaith partneriaeth rhwng yr heddlu a'r GIG, perthynas waith iach yn y GIG a llywodraethu mewn argyfwng – gan sefydlu dysgu a ffyrdd newydd o weithio.

Datblygwyd a lansiwyd ein brand Lles Cymru ar gyfer ein cyfres o ddarlithoedd, y byddwn yn ei barhau fel thema drosfwaol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Denodd ein cyfres gychwynnol o ddarlithoedd dros 500 o fynychwyr ar draws wyth sesiwn a gynhaliwyd dros bedwar diwrnod. Cefnogwyd y gyfres o ddarlithoedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Novartis ac ABPI Cymru Wales a chafwyd cyfraniadau gan Brif Weinidog Cymru, Syr Michael Marmot, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o arweinwyr ar draws y DU. Trwy gyflwyno digwyddiadau o ansawdd uchel, rydym yn sicrhau bod Conffederasiwn GIG Cymru yn dal wrth wraidd arwain agweddau iechyd a gofal.

**500**

cynrychiolydd wedi mynychu ein cyfres o ddarlithoedd 'Wellbeing for Wales'



"Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn darparu un o'r pwyntiau casglu mwyaf defnyddiol i rannu syniadau, cwestiynu arbenigwyr a phob nawr ac yn y man, rhwyfo yn erbyn y llanw...Mae'n elfen bwysig o arloesedd iechyd Cymru."

**Aelod o Gynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru**

# Rhannu blaenoriaethau arweinwyr y GIG a gwella gweithio mewn partneriaeth

Rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau yn cynnwys CLILC, CCGC Cymru, Tai Cymunedol Cymru, Community Leisure UK, CGGC, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, ABPI Cymru Wales a Chomisiynwyr Cymru, i rannu blaenoriaethau arweinwyr y GIG a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth.

Gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifysgol Abertawe, a Gwyddor Gofal Iechyd Cymru, fe wnaethom gyfrannu at ac arwain cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer GIG Cymru Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19 a'r digwyddiad lansio. Dangosodd yr adroddiad ymarfer arloesol a ddaeth i'r amlwg ar draws y GIG o ganlyniad i'r pandemig a soniwyd amdano gan Brif Weinidog Cymru ac arweinydd Plaid Cymru yn ystod trafodaethau'r Senedd, yn ogystal ag ysbrydoli erthygl y BBC 'Covid innovations will reshape future NHS in Wales'.

Fel rhan o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, fe wnaethom barhau i godi ymwybyddiaeth o fuddion y celfyddydau i iechyd a lles. Fe wnaethom hyn trwy gyflwyno mewn digwyddiadau a chynadleddau, trwy fod yn aelod gweithredol o Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar y Celfyddydau ac Iechyd a Grŵp Llywio HARP (Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl). Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r celfyddydau ac iechyd, fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

> "Mae ymgysylltu rheolaidd â Chonffederasiwn GIG Cymru yn rhoi cyfleoedd pwysig ar gyfer deialog agored a gonest... mae eu gwybodaeth sylweddol a'u dealltwriaeth o'r camau sy'n cael eu cyflwyno gan fyrddau iechyd, a'r pwysau gwahanol y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu yng Nghymru, yn rhoi gwybodaeth amhrisiadwy i mi i gynorthwyo fy ngwaith."
>
> **Comisiynydd**

# Cadw mewn cysylltiad

Mae sawl ffordd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gonffederasiwn GIG Cymru:




Rydym yn creu cylchlythyrau ebost wythnosol a misol. I danysgrifio neu i ganfod mwy, ewch i **www.nhsconfed.org/membership/email-newsletters**




Gall arweinwyr y GIG hefyd danysgrifio i fwletinau Conffederasiwn y GIG yn cynnwys briffiau aelodau dyddiol, bwletin aelodau wythnosol ac amrywiaeth o fwletinau diddordeb arbennig ar draws testunau allweddol. Gallwch ganfod mwy yma: **www.nhsconfed.org/membership/email-newsletters**



Rydym yn trefnu digwyddiadau, gweminarau a chynhadledd flynyddol. Am fwy o wybodaeth am ein rhaglen o ddigwyddiadau, ebostiwch **info@welshnhsconfed.org**



Rydym eisiau datblygu amrywiaeth o friffiau arfer da, gan godi ymwybyddiaeth o fentrau ac ymarfer arloesol ar draws y GIG yng Nghymru. I arddangos eich gwaith ebostiwch **info@welshnhsconfed.org**

Dilynwch ni:

@WelshConfed

Welsh NHS Confederation

Ac, wrth gwrs, ewch i'n gwefan:

www.welshconfed.org

Tŷ Phoenix
8 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

029 2034 9850
www.welshconfed.org
@WelshConfed

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar fformat amgen, ebostiwch **info@welshnhsconfed.org**

© Conffederasiwn y GIG 2022. Gallwch gopïo neu ddosbarthu'r gwaith hwn, ond mae'n rhaid i chi roi cydnabyddiaeth i'r awdur, ni allwch ei ddefnyddio at ddibenion masnachol, ac ni allwch newid, trawsnewid na datblygu'r gwaith.

Rhif elusen gofrestredig 1090329